Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?/ How can we look afyter our planet?

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles**<br> | **Sut gall ein penderfyniadau bach wneud gwahaniaeth mawr i'n hiechyd a'r byd o'n cwmpas?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae eu dewisiadau bob dydd yn effeithio ar eu hiechyd nhw a iechyd pobl eraill. Byddant yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a dychmygol, fel dewis rhwng cerdded neu ddefnyddio'r car, bwyd iach neu llai iach, a defnyddio plastig neu ailgylchu. Byddant yn ysgrifennu stori neu adroddiad byr i esbonio canlyniadau pob dewis, ac yn trefnu'r wybodaeth mewn tabl neu graff. Byddant hefyd yn **defnyddio offer digidol i greu sleidiau** neu graffiau sy'n dangos effaith eu penderfyniadau, gan ddysgu sut gall gwneud dewisiadau gwybodus wella eu hiechyd a bywyd pobl eraill, nawr ac yn y dyfodol.<br><br>**How can our small decisions make a big difference to our health and the world around us?**<br>*During this term, children will explore how their everyday choices affect their own health and the health of others. They will take part in practical and imaginative activities, such as choosing between walking or using a car, healthy or less healthy food, and using plastic or recycling. They will write a short story or report to explain the outcomes of each choice and organise the information in a table or graph. They will also use digital tools to create slides or charts showing the impact of their decisions.Through this, they will learn how making informed choices can improve their health and the lives of others, now and in the future.* |
| **Dyniaethau**<br> | **Sut mae cymunedau yn ymateb i newid hinsawdd?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae sut mae gweithgareddau dynol lleol yn effeithio ar yr amgylchedd. Byddant yn cerdded o gwmpas eu hardal leol i arsylwi sut mae pobl yn rhyngweithio â'r amgylchedd – cerdded, parcio, chwaraeon, sbwriel – ac yn ysgrifennu brawddegau byrion am yr hyn a welsoch, gan gyfri nifer o bobl a nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Byddant hefyd yn tynnu lluniau neu recordio fideo byr i ddogfennu'r arsylwadau, ac yn trafod sut mae gweithgareddau dynol yn effeithio ar awyr iach a bywyd gwyllt. Yn ychwanegol, byddant yn dewis un math o weithgaredd dynol lleol i'w ymchwilio'n fanwl, gan greu graffiau neu ddeunydd digidol sy'n dangos yr effaith, a dysgu sut gall newid ymddygiad pobl helpu i gadw'r byd naturiol a'r awyr yn iach.<br>**How do communities respond to climate change?**<br>*During this term, children will explore how local human activities affect the environment. They will walk around their local area to observe how people interact with the environment—walking, parking, playing sports, littering—and will write short sentences about what they have seen, counting the number of people and identifying both positive and negative impacts. They will also take photographs or record short videos to document their observations, and discuss how human activities affect clean air and wildlife. In addition, they will choose one type of local human activity to investigate in more detail, creating graphs or digital materials to show its impact. Through this, they will learn how changes in people's behaviour can help protect the natural world and keep the air clean and healthy.* |

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?/ How can we look afyter our planet?

| | |
|---|---|
| Gwyddoniaeth<br> | **Sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar y berthynas rhwng pethau byw?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio sut mae gweithredoedd dynol yn effeithio ar berthynas rhwng pethau byw. Byddant yn arsylwi ecosystem leol, gan fynd am dro o gwmpas yr ardal leol i nodi planhigion, anifeiliaid a mannau gwyrdd, ac yn creu map syml sy'n dangos lle mae pobl yn mynychu a pha effaith y gallai hynny gael ar natur. Byddant yn rhestru a chyfri planhigion a bywyd gwyllt lleol, tynnu lluniau i greu albwm digidol, ac yn trafod sut mae penderfyniadau pobl yn effeithio ar oroesi'r pethau byw hyn. Yn ogystal, byddant yn dylunio poster neu fap sy'n dangos cylch bywyd lleol a sut mae pobl a natur yn cydweithio i gynnal ecosystem iach, gan ddeall cyd-ddibyniaeth pethau byw a'r effaith o weithgareddau dynol.<br><br>**How do human actions affect the relationships between living things?**<br>*During this term, children will explore how human actions affect the relationships between living things. They will observe a local ecosystem by going on a walk around their local area to identify plants, animals and green spaces, and create a simple map showing where people spend time and the impact this may have on nature. They will list and count local plants and wildlife, take photographs to create a digital album, and discuss how people's decisions affect the survival of these living things. In addition, they will design a poster or map showing a local life cycle and how people and nature work together to maintain a healthy ecosystem. Through this, they will develop an understanding of the interdependence of living things and the impact of human activities.* |
| **Celfyddydau Mynegiannol**<br> | **Sut gallwn ni ddangos bywyd gwyllt a'r amgylchedd trwy gelf a gwaith creadigol?**<br>Yn ystod y tymor hwn, bydd plant yn archwilio natur ein hardal leol trwy gelf a gwaith creadigol. Byddant yn edrych ar luniau, fideos a gwaith artistiaid i ddeall bywyd gwyllt a phwysigrwydd awyr iach, ac yn creu lluniau neu gollage sy'n dangos planhigion, anifeiliaid a'r amgylchedd. Trefnu deunyddiau yn grwpiau: naturiol / wedi'u hailgylchu.Byddant yn myfyrio ar y neges y mae eu gwaith yn ei chyfleu, rhannu adborth gyda'u cyfoedion, ac yn datblygu eu gwaith yn seiliedig ar y sylwadau hyn. Byddant hefyd yn defnyddio offer digidol i dynnu lluniau neu greu fideo o'u prosiect, yn ysgrifennu brawddegau am eu gwaith, ac yn cofnodi elfennau creadigol neu ddeunyddiau a ddefnyddir, gan gynnwys paent, papur, sbwriel ailgylchu neu ddeunyddiau naturiol.<br><br>**How can we show wildlife and the environment through art and creative work?**<br>*During this term, children will explore the nature of their local area through art and creative activities. They will look at pictures, videos and the work of artists to understand wildlife and the importance of clean air, and will create drawings or collages that show plants, animals and the environment. They will organise materials into groups: natural and recycled.They will reflect on the message their work communicates, share feedback with their peers, and develop their work based on these comments. They will also use digital tools to take photos or create a video of their project, write sentences about their work, and record the creative elements or materials used, including paint, paper, recycled materials or natural items.* |

Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?/ How can we look afyter our planet?

# Ein Cwestiwn mawr: Sut allwn ni ofalu am ein planed?

Pam mae blodau yn bwysig i'n byd?
***Why are flowers important to our world?***

Sut mae coed yn helpu i wneud yr aer yn lanach?
***How do trees help make the air cleaner?***

Pa blanhigion sy'n tyfu yn ein hardal ni?
***What plants grow in our local area?***

Sut mae pobl yn effeithio ar anifeiliaid?
***How do people affect animals?***

Sut gallwn ni helpu anifeiliaid i fyw'n hapus ac yn ddiogel?
***How can we help animals live happily and safely?***

Pam mae ailgylchu yn helpu'r byd?
***Why does recycling help the world?***

Sut gallwn ni leihau sbwriel?
***How can we reduce litter?***

Beth allwn ni wneud i ofalu am ein hardal ni?
***What can we do to look after our local area?***

Sut gallwn ni arbed dŵr yn yr ysgol neu gartref?
***How can we save water at school or at home?***

Beth mae paneli solar yn ei wneud?
***What do solar panels do?***

Sut mae tyrbinau gwynt yn gwneud trydan?
***How do wind turbines make electricity?***

Sut mae beicio neu gerdded yn helpu'r aer?
***How does cycling or walking help the air?***

Sut gallwn ni gadw ein hunain a'n cymuned yn iach?
***How can we keep ourselves and our community healthy?***

